Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Y Cod

Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio

Blaenoriaethu pobl

Ymarfer yn effeithiol

Cynnal diogelwch

Annog proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth

# Amdanom ni

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd.Gwnawn hyn drwy sicrhau mai dim ond y rheini sy'n bodloni ein gofynion a gaiff ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu fel cydymaith nyrsio yn Lloegr. Rydym yn gweithredu os codir pryderon ynghylch addasrwydd nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

**Mae honni eich bod yn nyrs neu'n fydwraig yn y DU, neu'n gydymaith nyrsio yn Lloegr, neu ymarfer fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu gydymaith nyrsio yn Lloegr, os nad ydych yn y rhan berthnasol o'n cofrestr, yn erbyn y gyfraith.**

Yn ogystal, mae'n drosedd i unrhyw un sy'n mynd ati gyda'r bwriad o dwyllo, i beri neu i ganiatáu i rywun arall eu cynrychioli trwy dwyll fel rhywun sydd ar y gofrestr, neu sy'n gwneud cynrychiolaeth anghywir amdanynt ynghylch bod ar gofrestr CNB.

**Cyhoeddwyd:** 29 Ionawr 2015 **Yn weithredol o:** 31 Mawrth 2015
**Diweddarwyd i adlewyrchu'r trefniadau i reoleiddio cymdeithion nyrsio:** 10 Hydref 2018

## Nodyn am y fersiwn hwn o'r Cod

Mae pob rheolydd yn adolygu eu Codau o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu disgwyliadau'r cyhoedd. Mae'r fersiwn newydd hwn o'r Cod yn debyg iawn i fersiwn 2015, ond fe'i ddiweddarwyd er mwyn adlewyrchu ein cyfrifoldebau newydd dros reoleiddio cymdeithion nyrsio. Wrth ymuno â'r Cod, bydd cymdeithion nyrsio yn arddel y Cod.

Gellir gweld fersiynau cyfredol ein Cod, ein safonau a'n harweiniad ar ein gwefan bob amser. Dylai'r rhai sydd ar ein cofrestr sicrhau eu bod yn defnyddio'r fersiwn diweddaraf o'r Cod.

Am ragor o wybodaeth am y Cod, trowch at:
**www.nmc.org.uk/code**

# Cyflwyniad

Mae'r Cod yn cynnwys y safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio[1] cofrestredig eu cyrraedd. Rhaid i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn y DU weithredu yn unol â'r Cod, p'un a ydynt yn rhoi gofal uniongyrchol i unigolion, grwpiau neu gymunedau neu'n arddel eu barn broffesiynol ar arferion nyrsio[2] a bydwreigiaeth mewn rolau eraill, fel arwain, addysg neu ymchwil. Gellir arfer y gwerthoedd a'r egwyddorion a nodir yn y Cod mewn amrywiaeth o leoliadau ymarfer, ond ni ellir eu newid ac nid ydynt yn ddewisol.

Ein rôl yw pennu'r safonau yn y Cod, ond nid ein safonau ni yn unig ydynt. Maent yn safonau y mae cleifion ac aelodau'r cyhoedd yn dweud wrthym y maent yn eu disgwyl gan weithwyr iechyd proffesiynol. Maent yn safonau a ddangosir bob dydd gan y sawl sydd ar ein cofrestr.

Wrth ymuno â'n cofrestr, ac wrth adnewyddu eu cofrestriad, mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn ymrwymo i gyrraedd y safonau hyn. Mae'r ymrwymiad hwn i safonau proffesiynol yn sylfaenol i fod yn rhan o broffesiwn. Gallwn weithredu os bydd y sawl sydd ar ein cofrestr yn methu glynu wrth y Cod. Mewn achosion difrifol, gall hyn gynnwys eu tynnu oddi ar y gofrestr.

---

**1** Rhaid i unrhyw un sy'n gweithio fel nyrs neu fydwraig gofrestredig yn y DU, neu gydymaith nyrsio yn Lloegr, gofrestru gyda ni. Dim ond yn Lloegr y defnyddir rôl y cydymaith nyrsio.

**2** Rydym wedi defnyddio'r ymadrodd 'nyrsio' yn y ddogfen hon er mwyn cyfeirio at waith nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae cymdeithion nyrsio yn broffesiwn ar wahân ac mae ganddynt eu rhan eu hunain o'n cofrestr, ond maent yn rhan o'r tîm nyrsio.

Mae'r Cod yn nodi safonau ymddygiad cyffredin ar gyfer y rhai sydd ar ein cofrestr. Mae hyn yn cynnig neges glir, cyson a chadarnhaol i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr am yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y rhai sy'n darparu gofal nyrsio neu fydwreigiaeth.

Mae gan y proffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio wahanol wybodaeth a sgiliau, a nodir mewn tair set wahanol o safonau medrusrwydd. Gallant fod yn gweithio mewn gwahanol gyd-destunau ac yn meddu ar wahanol lefelau o ran annibyniaeth a chyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae'r holl broffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio yn arfer barn broffesiynol ac maent yn atebol am eu gwaith.

Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn arddel y Cod o fewn terfynau eu cymhwystra. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, er y bydd nyrs a chydymaith nyrsio yn cyflawni gwahanol rolau mewn agwedd ar ofal, bydd y ddau ohonynt yn arddel y safonau yn y Cod o fewn y cyfraniad y maent yn ei wneud i ofal cyffredinol.
Mae'r ymrwymiad proffesiynol i weithio o fewn eich cymhwystra yn egwyddor sylfaenol allweddol ar gyfer y Cod (gweler adran 13), ac o ystyried arwyddocâd ei effaith ar ddiogelu'r cyhoedd, dylid ei arddel bob amser.

Yn ogystal, disgwylir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio weithio o fewn terfynau eu cymhwystra, y gallai hyn ymestyn y tu hwnt i'r safonau a ddangoswyd ganddynt er mwyn ymuno â'r gofrestr.

Dylai'r Cod fod yn ddefnyddiol i bawb sy'n poeni am nyrsio a bydwreigiaeth da:

- Gall cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, ei ddefnyddio i roi adborth i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar y gofal maent yn ei dderbyn.
- Gall y rhai ar ein cofrestr ei ddefnyddio i hyrwyddo ymarfer diogel ac effeithiol yn eu man waith.
- Dylai sefydliadau cyflogwyr gynorthwyo eu staff lynu wrth y safonau yn eu Cod proffesiynol fel rhan o ddarparu'r ansawdd a'r diogelwch a ddisgwylir gan ddefnyddwyr gwasanaeth a rheoleiddwyr.
- Gall addysgwyr ddefnyddio'r Cod i helpu myfyrwyr i ddeall beth mae'n ei olygu i fod yn weithiwr proffesiynol cofrestredig a sut mae glynu wrth y Cod yn helpu i gyflawni hynny.

I'r llu o ymarferwyr ymroddedig ac arbenigol ar ein cofrestr, dylid ystyried y Cod hwn fel ffordd o atgyfnerthu eu proffesiynoldeb. Drwy ail-ddilysu, bydd nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn darparu tystiolaeth o'u gallu parhaus i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r Cod yn ganolog i'r broses ail-ddilysu fel ffocws ar gyfer myfyrio proffesiynol. Mae hwn yn rhoi arwyddocâd i'r Cod ym mywyd proffesiynol y rhai sydd ar ein cofrestr, gan godi ei statws a'i bwysigrwydd i gyflogwyr.

Mae'r Cod yn cynnwys cyfres o ddatganiadau sydd, gyda'i gilydd, yn dynodi beth yw ymarfer da gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio. Mae'n rhoi buddiannau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gyntaf, mae'n ddiogel ac yn effeithiol, ac yn hyrwyddo ymddiriedaeth drwy broffesiynoldeb.

# Blaenoriaethu pobl

Rydych yn rhoi buddiannau pobl sy'n defnyddio neu sydd angen gwasanaethau nyrsio neu fydwreigiaeth yn gyntaf. Eu gofal a'u diogelwch yw eich prif bryder ac rydych yn sicrhau y caiff eu hurddas ei gynnal a bod eu hanghenion yn cael eu cydnabod, eu hasesu ac yr ymatebir iddynt. Rydych yn gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n derbyn gofal yn cael eu trin â pharch, bod eu hawliau'n cael eu cynnal a bod unrhyw agweddau neu ymddygiadau gwahaniaethol tuag y rhai sy'n derbyn gofal yn cael eu herio.

## 1 Trin pobl fel unigolion a pharchu eu hurddas

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**1.1** trin pobl yn garedig, gan ddangos parch a thrugaredd

**1.2** sicrhau eich bod yn darparu hanfodion gofal yn effeithiol

**1.3** osgoi gwneud rhagdybiaethau a chydnabod amrywiaeth a dewis yr unigolyn

**1.4** sicrhau bod unrhyw driniaeth, cymorth neu ofal rydych yn gyfrifol amdano yn cael ei ddarparu heb unrhyw oedi diangen

**1.5** parchu a chynnal hawliau dynol pobl.

---

Mae hanfodion gofal yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, maeth, hydradiad, gofal pledren a choluddyn, codi a chario corfforol a sicrhau y caiff y bobl yn eich gofal eu cadw mewn amgylchiadau glân a hylan. Mae'n cynnwys sicrhau bod gan bobl sy'n derbyn gofal fynediad digonol at faeth a hydradiad, a sicrhau eich bod yn rhoi cymorth i'r rhai na allant fwydo eu hunain neu gael diod heb gymorth.

## 2 Gwrando ar bobl ac ymateb i'w dewisiadau a'u pryderon

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**2.1** gweithio mewn partneriaeth â phobl er mwyn sicrhau eich bod yn darparu gofal yn effeithiol

**2.2** cydnabod a pharchu'r cyfraniad y gall pobl ei wneud i'w hiechyd a'u lles eu hunain

**2.3** annog and grymuso pobl i rannu penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth a'u gofal

**2.4** parchu'r lefel y mae pobl sy'n derbyn gofal yn dymuno bod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â'u hiechyd, eu lles a'u gofal

**2.5** parchu, cefnogi a chofnodi hawl person i dderbyn neu wrthod gofal a thriniaeth

**2.6** sylwi pan fydd pobl yn bryderus neu'n ofidus ac ymateb yn drugarog a chwrtais.

## 3 Gwneud yn siŵr y caiff anghenion corfforol, cymdeithasol a seicolegol pobl eu hasesu ac yr ymatebir iddynt.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**3.1** talu sylw arbennig i hyrwyddo lles, atal salwch a diwallu anghenion iechyd a gofal cyfnewidiol pobl yn ystod pob cyfnod mewn bywyd

**3.2** cydnabod ac ymateb yn drugarog i anghenion y rhai sydd yn nyddiau ac oriau olaf eu bywyd

**3.3** gweithredu mewn partneriaeth â'r rhai sy'n derbyn gofal, gan eu helpu i gael mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol, gwybodaeth a chymorth perthnasol pan fydd eu hangen arnynt

**3.4** ymddwyn fel eiriolwr i bobl sy'n agored i niwed, gan herio ymarfer gwael ac agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol sy'n ymwneud â'u gofal.

## 4 Gweithredu er budd pobl bob amser

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**4.1** cydbwyso'r angen i weithredu er budd pobl bob amser â'r gofyniad i barchu hawl person i dderbyn neu wrthod triniaeth

**4.2** gwneud yn siŵr eich bod yn cael cydsyniad hyddysg mewn ffordd addas a'ch bod yn ei gofnodi cyn cychwyn ar unrhyw driniaeth neu ofal

**4.3** cadw at y cyfreithiau perthnasol mewn perthynas â galluedd meddyliol sy'n berthnasol i'r wlad rydych yn ymarfer ynddi, gan sicrhau bod hawliau a buddiannau'r bobl sydd â diffyg galluedd yn parhau yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau

**4.4** dweud wrth eich cydweithwyr, eich rheolwr a'r person yn eich gofal os oes gennych wrthwynebiad cydwybodol i driniaeth benodol, a threfnu i gydweithiwr sydd â chymwysterau addas gymryd cyfrifoldeb am ofal y person hwn yn eich lle.

---

Gallwch ond gwneud 'gwrthwynebiad cydwybodol' mewn rhai amgylchiadau penodol yn unig. I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn **www.nmc.org.uk/standards**

## 5 Parchu hawl pobl i breifatrwydd a chyfrinachedd

Fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio, mae gennych ddyletswydd o gyfrinachedd i bawb sy'n derbyn gofal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu am eu gofal a bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu'n briodol.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**5.1** parchu hawl person i breifatrwydd ym mhob agwedd ar eu gofal

**5.2** sicrhau bod pobl yn cael eu hysbysu am y ffordd y caiff gwybodaeth ei defnyddio a'i rhannu gan y rhai fydd yn darparu eu gofal a pham bod hynny'n digwydd

**5.3** parchu bod hawl pobl i gyfrinachedd yn parhau ar ôl iddynt farw

**5.4** dim ond rhannu gwybodaeth angenrheidiol â gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill ac asiantaethau eraill pan fydd diogelwch cleifion a diogelwch y cyhoedd yn bwysicach na'r angen am gyfrinachedd

**5.5** rhannu gwybodaeth y mae pobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr am ei wybod neu angen ei wybod am eu hiechyd, eu gofal a'u triniaeth barhaus, cyn belled â bod y gyfraith yn caniatáu hynny, mewn ffordd sensitif ac mewn ffordd y gallant ei deall.

# Ymarfer yn effeithiol

Rydych yn asesu angen ac yn darparu neu'n cynghori ar driniaeth, neu'n rhoi help (gan gynnwys gofal ataliol neu ailsefydlu) heb ormod o oedi a hyd eithaf eich gallu, ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael a'r ymarfer gorau. Rydych yn cyfathrebu'n effeithiol, yn cadw cofnodion clir a chywir ac yn rhannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad lle y bo'n briodol. Rydych yn myfyrio ac yn gweithredu ar unrhyw adborth rydych yn ei dderbyn er mwyn gwella eich ymarfer.

## 6 Ymarfer yn unol â'r dystiolaeth orau sydd ar gael bob amser

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**6.1** gwneud yn siŵr bod unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â defnyddio cynhyrchion neu wasanaethau iechyd a gofal

**6.2** cynnal y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch er mwyn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

## 7 Cyfathrebu'n glir

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**7.1** defnydd termau y gall pobl yn eich gofal, cydweithwyr a'r cyhoedd eu deall

**7.2** cymryd camau rhesymol i ddiwallu anghenion iaith a chyfathrebu pobl, gan ddarparu, cymorth i'r rhai sydd angen help i gyfathrebu eu hanghenion eu hunain neu anghenion pobl eraill, lle y bo hynny'n bosibl

**7.3** defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu geiriol a dieiriau, ac ystyried materion diwylliannol sensitif, er mwyn deall ac ymateb i anghenion personol ac iechyd pobl yn well

**7.4** gwirio dealltwriaeth pobl o bryd i'w gilydd er mwyn lleihau camddealltwriaeth neu gamgymeriadau

**7.5** gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol yn Saesneg.

## 8 Cydweithio

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**8.1** parchu sgiliau, arbenigedd a chyfraniadau eich cydweithwyr, gan atgyfeirio materion atynt lle y bo'n briodol

**8.2** cyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr

**8.3** rhoi gwybod i gydweithwyr pan fyddwch yn rhannu'r gofal am unigolion gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a staff

**8.4** gweithio gyda chydweithwyr er mwyn gwerthuso ansawdd eich gwaith chi a gwaith y tîm

**8.5** gweithio gyda chydweithwyr er mwyn cynnal diogelwch y rhai sy'n derbyn gofal

**8.6** rhannu gwybodaeth i nodi a lleihau risg

**8.7** cefnogi cydweithwyr sydd â phroblemau iechyd neu berfformiad. Fodd bynnag, ni ddylai'r gefnogaeth hon fyth fod ar draul diogelwch claf neu'r cyhoedd.

## 9 Rhannu eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad er budd y bobl sy'n derbyn eich gofal a'ch cydweithwyr

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**9.1** rhoi adborth gonest, cywir ac adeiladol i gydweithwyr

**9.2** casglu a myfyrio ar adborth o amrywiaeth o ffynonellau, gan ei ddefnyddio i wella eich ymarfer a'ch perfformiad

**9.3** mynd i'r afael â gwahaniaethau barn broffesiynol gyda chydweithwyr drwy drafodaethau a dadleuon hyddysg, gan barchu eu safbwyntiau a'u barn ac ymddwyn mewn ffordd broffesiynol bob amser

**9.4** cefnogi dysgu myfyrwyr a chydweithwyr i'w helpu i ddatblygu eu cymhwysedd proffesiynol a'u hyder.

## 10 Cadw cofnodion clir a chywir sy'n berthnasol i'ch ymarfer

Mae hyn yn berthnasol i'r cofnodion sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gofnodion cleifion.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**10.1** cwblhau pob cofnod ar y pryd neu cyn gynted â phosibl ar ôl digwyddiad, gan gofnodi os cafodd y nodiadau eu hysgrifennu ar ôl y digwyddiad

**10.2** nodi unrhyw risgiau neu broblemau sydd wedi codi a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â hwy, fel bod gan gydweithwyr sy'n defnyddio'r cofnodion yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt

**10.3** cwblhau pob cofnod yn gywir, heb ffugio, gan gymryd camau gweithredu uniongyrchol a phriodol os byddwch yn dod yn ymwybodol nad yw rhywun wedi cadw at y gofynion hyn

**10.4** sicrhau bod unrhyw nodiadau a wnewch ar unrhyw gofnod electronig neu ar bapur yn cael eu hysgrifennu'n glir ac wedi'u priodoli i chi, bod y dyddiad a'r amser wedi'u nodi, a pheidiwch â chynnwys talfyriadau a jargon diangen na dyfaliadau

**10.5** cymryd pob cam posibl er mwyn sicrhau bod pob cofnod wedi'i gadw'n ddiogel

**10.6** casglu, trin a chadw pob data a chanfyddiadau ymchwil yn briodol.

## 11 Bod yn atebol am eich penderfyniadau i ddirprwyo tasgau a dyletswyddau i bobl eraill

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**11.1** dylech ond dirprwyo tasgau a dyletswyddau sydd o fewn cwmpas cymhwysedd y person arall, gan sicrhau eu bod yn deall eich cyfarwyddiadau yn llawn

**11.2** sicrhau bod pawb yr ydych yn dirprwyo tasgau iddynt wedi'u goruchwylio a'u cefnogi'n briodol fel y gallant ddarparu gofal diogel a thrugarog

**11.3** cadarnhau bod canlyniad unrhyw dasg a ddirprwywyd gennych i berson arall yn cwrdd â'r safon ofynnol.

## 12 Cael trefniant indemniad ar waith sy'n darparu yswiriant addas ar gyfer unrhyw waith y byddwch yn ei gwblhau fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn y Deyrnas Unedig

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**12.1** gwneud yn siŵr bod gennych drefniant indemniad priodol ar waith sy'n berthnasol i gwmpas eich ymarfer.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
**www.nmc.org.uk/indemnity**

# Cynnal diogelwch

Rydych yn sicrhau na chaiff diogelwch y claf na'r cyhoedd ei effeithio. Rydych yn gweithio o fewn terfynau eich gallu, gan arfer eich dyletswydd broffesiynol i fod yn onest a chodi pryderon ar unwaith pryd bynnag y dewch ar draws sefyllfaoedd sy'n peryglu diogelwch claf neu'r cyhoedd. Rydych yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon lle y bo'n briodol.

## 13 Cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich gallu

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol, pan fo hynny'n briodol:

**13.1** nodi, arsylwi ac asesu arwyddion bod iechyd corfforol ac iechyd meddwl y person sy'n derbyn gofal yn normal neu'n gwaethygu yn gywir

**13.2** gwneud cyfeiriad amserol i ymarferwr arall pan fydd gofyn cymryd unrhyw gamau neu ddarparu unrhyw ofal neu driniaeth

**13.3** gofyn am gymorth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol profiadol sydd â chymwysterau addas i gyflawni tasg neu driniaeth sydd y tu hwnt i derfynau eich gallu

**13.4** ystyried eich diogelwch personol eich hun yn ogystal â diogelwch pobl yn eich gofal

**13.5** cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol cyn cyflawni rôl newydd.

---

Mae'r ddyletswydd broffesiynol i fod yn onest yn ymwneud â bod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith "Rhaid i bob gweithiwr iechyd proffesiynol fod yn agored ac yn onest gyda chleifion pan aiff rhywbeth o'i le gyda'u triniaeth neu eu gofal sy'n achosi niwed neu drallod, neu y gallai achosi hynny." Datganiad ar y cyd gan Brif Weithredwyr rheoleiddwyr statudol gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

## 14 Bod yn agored a gonest gyda phob defnyddiwr gwasanaeth ynglŷn â phob agwedd ar ofal a thriniaeth, gan gynnwys pan wneir camgymeriadau neu niwed

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**14.1** gweithredu ar unwaith i unioni'r sefyllfa os bydd rhywun wedi dioddef niwed gwirioneddol am unrhyw reswm neu os bu digwyddiad a oedd â'r potensial i achosi niwed

**14.2** esbonio'n llawn a phrydlon beth ddigwyddodd, gan gynnwys yr effeithiau tebygol, ac ymddiheuro i'r person yr effeithiwyd arno, lle y bo'n briodol, eu heiriolwr, eu teulu neu eu gofalwyr

**14.3** cofnodi'r holl ddigwyddiadau hyn yn ffurfiol a chymryd camau pellach (cyfeirio) os yn briodol fel y gellir mynd i'r afael â nhw'n gyflym.

## 15 Cynnig help bob amser os bydd argyfwng o fewn lleoliad eich ymarfer neu unrhyw le arall

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**15.1** dim ond o fewn terfynau eich gwybodaeth a'ch gallu y dylech gymryd camau mewn argyfwng

**15.2** lle y bo hynny'n bosibl, trefnu y gellir cael mynediad at ofal mewn argyfwng, a'i ddarparu'n brydlon

**15.3** ystyried eich diogelwch eich hun, diogelwch eraill ac a oes opsiynau darparu gofal eraill ar gael.

## 16 Gweithredu yn ddi-oed os credwch fod risg i ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**16.1** codi unrhyw bryderon a'u cyfeirio, os bydd angen, o ran diogelwch claf neu'r cyhoedd, neu lefel y gofal y mae pobl yn ei dderbyn yn eich gweithle, neu unrhyw leoliad iechyd a gofal arall a defnyddio'r sianelau sydd ar gael i chi yn unol â'n canllawiau a'ch arferion gwaith lleol

**16.2** codi eich pryderon ar unwaith os gofynnir i chi ymarfer y tu hwnt i'ch rôl, eich profiad a'ch hyfforddiant

**16.3** dweud wrth rywun mewn awdurdod ar y cyfle cyntaf rhesymol os cewch broblemau a allai eich rhwystro rhag gweithio o fewn y Cod neu safonau cenedlaethol eraill, gan gymryd camau prydlon i fynd i'r afael ag achos y pryder os gallwch wneud hynny

**16.4** cydnabod a gweithredu ar bob pryder y mae pobl yn dweud wrthych amdanynt, gan ymchwilio, cyfeirio neu ddelio â'r pryderon hynny lle mae'n briodol i chi wneud hynny

**16.5** peidio â rhwystro, bygylu, erlid nac atal cydweithiwr, aelod staff, person yn eich gofal neu aelod o'r cyhoedd sy'n dymuno datgan pryder, mewn unrhyw ffordd

**16.6** diogelu unrhyw un y mae gennych gyfrifoldeb rheoli rostynt rhag niwed, anfantais, erledigaeth neu driniaeth ddiangen ar ôl datgan pryder.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
**www.nmc.org.uk/raisingconcerns.**

## 17 Codi pryderon yn ddi-oed os credwch fod rhywun yn agored i niwed neu mewn perygl a bod angen mwy o gymorth a diogelwch arno

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**17.1** cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed neu mewn perygl o niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth

**17.2** rhannu gwybodaeth os credwch y gallai rhywun fod mewn perygl o niwed, yn unol â'r cyfreithiau sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth

**17.3** meddu ar wybodaeth am gyfreithiau a pholisïau perthnasol ynglŷn â diogelu a gofalu am bobl sy'n agored i niwed, a chadw atynt.

## 18 Cynghori ar, rhagnodi, cyflenwi, dosbarthu neu roi meddyginiaethau sydd o fewn terfynau eich hyfforddiant a'ch gallu, y gyfraith, ein canllawiau ni a pholisïau, canllawiau a rheoliadau eraill

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**18.1** rhagnodi, cynghori ar neu ddarparu meddyginiaethau neu driniaeth, yn cynnwys presgripsiynau amlroddadwy (dim ond os oes gennych y cymwysterau addas) os oes gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y person a'ch bod yn fodlon bod y meddyginiaethau neu driniaeth yn diwallu anghenion iechyd y person hwnnw

**18.2** cadw at ganllawiau priodol wrth roi cyngor ar ddefnyddio cyffuriau a reolir ac wrth gofnodi rhagnodi, cyflenwi, dosbarthu neu roi cyffuriau a reolir

**18.3** gwneud yn siwr bod y gofal neu'r driniaeth y cynghorwcharnynt, a ragnodwch, a gyflenwch, a ddosbarthwch neu a rowch i bob claf yn cyd-fynd ag unrhyw ofal neu driniaeth arall y mae'r claf yn ei dderbyn, yn cynnwys meddyginiaethau dros y cownter (lle y bo'n bosib)

**18.4** cymryd pob cam posibl i storio meddyginiaethau yn ddiogel

**18.5** lle y bo hynny'n bosibl, ceisiwch osgoi rhagnodi i chi eich hun neu i unrhyw un y mae gennych gydberthynas bersonol agos â nhw.

Nid yw rhagnodi o fewn cwmpas ymarfer pawb ar ein cofrestr. Nid yw cymdeithion nyrsio yn rhagnodi, ond efallai y byddant yn cyflenwi, yn rhoi ac yn gweinyddu meddyginiaethau. Nyrsys a bydwragedd sydd wedi llwyddo i gwblhau cymhwyster pellach ym maes rhagnodi ac sydd wedi'i gofnodi ar ein cofrestr yw'r unig bobl ar ein cofrestr sy'n gallu rhagnodi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
**www.nmc.org.uk/standards.**

## 19 Bod yn ymwybodol o unrhyw niwed posibl sy'n gysylltiedig â'ch ymarfer a lleihau hynny, cyn belled ag y bo modd

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**19.1** cymryd camau i leihau'r tebygolrwydd o gamgymeriadau, damweiniau y bu bron iddynt ddigwydd, niwed ac effaith niwed os bydd yn digwydd, cyn belled ag y bo modd

**19.2** ystyried tystiolaeth, gwybodaeth and datblygiadau cyfredo i leihau camgymeriadau a'u heffaith ac effaith ffactorau dynol a methiant systemau (gweler y nodyn isod)

**19.3** cadw at ac annog ymarfer a argymhellir mewn perthynas â rheoli ac atal haint

**19.4** cymryd pob cam rhagofalus angenrheidiol i osgoi unrhyw risgiau iechyd posibl i gydweithwyr, pobl sy'n derbyn gofal a'r cyhoedd.

---

Mae ffactorau dynol yn cyfeirio at ffactorau amgylcheddol, sefydliadol a gwaith, a nodweddion dynol ac unigolion, sy'n dylanwadu ar ymddygiad yn y gwaith mewn ffordd a all effeithio ar iechyd a diogelwch. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn **www.hse.gov.uk**

# Annog proffesiynoldeb ac ymddiriedaeth

Rydych yn cadw enw da eich proffesiwn bob amser. Dylech arddangos ymrwymiad personol i'r safonau ymarfer a'r ymddygiad a nodir yn y Cod. Dylech fod yn fodel o uniondeb ac arweinyddiaeth i eraill anelu ato. Dylai hyn arwain at ymddiriedaeth a hyder yn y proffesiwn gan gleifion, pobl sy'n derbyn gofal, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a'r cyhoedd.

## 20 Cynnal enw da eich proffesiwn bob amser

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**20.1** cadw at a chynnal safonau a gwerthoedd y Cod

**20.2** ymddwyn gyda gonestrwydd ac uniondeb bob amser, gan drin pobl yn deg a heb wahaniaethu, bwlio nac aflonyddu

**20.3** bod yn ymwybodol bob amser o'r ffordd y gall eich ymddygiad effeithio a dylanwadu ar ymddygiad pobl eraill

**20.4** cadw at gyfreithiau'r wlad rydych yn gweithio ynddi

**20.5** trin pobl mewn ffordd nad yw'n manteisio ar y ffaith eu bod yn agored i niwed neu achosi poen meddwl neu ofid iddynt

**20.6** cadw'n wrthrychol a chadw at derfynau proffesiynol clir bob amser gyda phobl yn eich gofal (gan gynnwys y rhai a fu yn eich gofal yn y gorffennol), eu teuluoedd a'u gofalwyr

**20.7** gwneud yn siŵr nad ydych yn datgan eich credoau persono (yn cynnwys credoau gwleidyddol, crefyddol neu foesol) i bobl mewn ffordd amhriodol

**20.8** ymddwyn fel model rôl ar gyfer ymddygiad proffesiynol er mwyn i fyfyrwyr a nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio sydd newydd gymhwyso anelu ato

**20.9** cynnal y lefel iechyd sydd ei hangen arnoch i gyflawni eich rôl broffesiynol

**20.10** defnyddio pob ffurf ar gyfathrebu geiriol, ysgrifenedig a digidol (gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol a safleoedd rhwydweithio) mewn ffordd gyfrifol, gan barchu hawl eraill i breifatrwydd bob amser.

Am ragor o ganllawiau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a safleoedd rhwydweithio, ewch i: **www.nmc.org.uk/standards**

## 21 Cadw eich swydd fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio cofrestredig

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**21.1** gwrthod unrhyw anrheg, ffafr neu letygarwch, ac eithrio'r rhai mwyaf dibwys, gan y gallai eu derbyn gael ei ystyried fel cais i gael triniaeth arbennig

**21.2** peidio byth â gofyn am fenthyciadau na'u derbyn gan unrhyw un yn eich gofal neu unrhyw un sy'n agos atynt

**21.3** ymddwyn gyda gonestrwydd ac uniondeb mewn unrhyw drafodion ariannol rhyngoch chi a phawb y mae gennych gydberthynas broffesiynol â nhw, gan gynnwys: pobl yn eich gofal

**21.4** gwneud yn siŵr bod unrhyw hysbysebion, cyhoeddiadau neu ddeunydd cyhoeddedig rydych yn ei gynhyrchu neu wedi’i gynhyrchu ar gyfer eich gwasanaethau proffesiynol yn gywir, cyfrifol, moesol, nad ydynt yn camarwain nac yn cymryd mantais ar natur fregus unigolion a’u bod yn adlewyrchu eich sgiliau, profiad a chymwysterau perthnasol yn llawn

**21.5** peidio byth â defnyddio eich statws fel gweithiwr proffesiynol cofrestredig i hyrwyddo achosion nad ydynt yn ymwneud ag iechyd

**21.6** dylech ond cydweithredu â’r cyfryngau pan fo’n briodo gwneud hynny, a dylech ddiogelu cyfrinachedd ac urddas pobl sy’n derbyn triniaeth neu ofal bob amser.

## 22 Cyflawni’r holl ofynion cofrestru

Er mwyn cyflawni hyn, mae’n rhaid i chi wneud y canlynol:

**22.1** bodloni pob cais rhesymol fel y gallwn oruchwylio’r broses gofrestru

**22.2** cadw at ein horiau ymarfer a ragnodwyd ac ymgymryd â gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus

**22.3** diweddaru eich gwybodaeth a’ch sgiliau, cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a datblygu proffesiynol rheolaidd a phriodol sy’n ceisio cynnal a datblygu eich cymhwysedd a gwella eich perfformiad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
**www.nmc.org.uk/standards.**

## 23 Cydweithredu gyda phob ymchwiliad neu archwiliad

Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau neu archwiliadau, naill ai yn eich erbyn chi neu'n ymwneud ag eraill, p'un a ydynt yn unigolion neu'n sefydliadau. Mae hefyd yn cynnwys cydweithredu gyda cheisiadau i weithredu fel tyst mewn unrhyw wrandawiad sy'n rhan o ymchwiliad, hyd yn oed ar ôl i chi adael y gofrestr.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**23.1** cydweithredu ag unrhyw archwiliadau o gofnodion hyfforddi, cofnodion cofrestru ac archwiliadau perthnasol eraill gallem fod yn awyddus i'w cynnal er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn dal yn addas i ymarfer

**23.2** dweud wrthym ni ac unrhyw gyflogwyr ar y cyfle cyntaf rhesymol os ydych wedi cael rhybudd neu gyhuddiad yn eich erbyn, neu os ydych wedi cael rhyddhad amodol mewn perthynas â throsedd, neu os y'ch cafwyd yn euog o drosedd (ac eithrio rhybudd gwarchodedig neu gollfarn)

**23.3** dweud wrth unrhyw gyflogwyr rydych yn gweithio iddynt os ydych yn destun cyfyngiadau ymarfer neu os oes unrhyw amodau eraill wedi'u gosod arnoch gennym ni neu gorff perthnasol arall

**23.4** dweud wrthym ni a'ch cyflogwyr ar y cyfle cyntaf rhesymo os ydych yn cael, neu wedi cael eich disgyblu gan sefydliad rheoliadol neu drwyddedu, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu y tu allan i'r maes iechyd a gofal proffesiynol

---

Wrth ddweud wrth eich cyflogwyr, mae hyn yn cynnwys (i) unrhyw berson, gorff neu sefydliad rydych yn cael eich cyflogi ganddo, neu'n bwriadu cael eich cyflogi ganddo fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio; a (ii) unrhyw berson, gorff neu sefydliad y mae gennych drefniant gyda nhw i ddarparu gwasanaethau fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

**23.5** rhoi eich rhif Pin CNB pan wneir cais rhesymol amdano.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.nmc.org.uk.**

## 24 Ymateb i gwynion a wneir yn eich erbyn yn broffesiynol

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**24.1** peidio byth â gadael i gŵyn rhywun effeithio ar y gofal a ddarperir iddynt

**24.2** defnyddio pob cwyn fel math o adborth a chyfle i fyfyrio a dysgu er mwyn gwella ymarfer.

## 25 Rhoi arweiniad i sicrhau bod lles pobl yn cael ei ddiogelu ac i wella eu profiadau o'r system iechyd a gofal

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

**25.1** nodi blaenoriaethau, rheoli amser, staff ac adnoddau yn effeithiol a mynd i'r afael â risg er mwyn gwneud yn siŵr bod ansawdd y gofal neu'r gwasanaeth rydych yn ei ddarparu yn cael ei gynnal a'i wella, gan roi anghenion y rhai sy'n derbyn gofal neu wasanaethau yn gyntaf

**25.2** cefnogi unrhyw staff y gallech fod yn gyfrifol amdanynt i gydymffurfio â'r Cod bob amser. Rhaid iddynt feddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau i ymarfer yn ddiogel; a deall sut i godi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig ag unrhyw amgylchiadau lle cafodd y Cod ei dorri, neu y gallai fod wedi cael ei dorri.

Trwy gydol eu gyrfa, bydd ein holl gofrestreion yn cael cyfleoedd i ddangos nodweddion arweinyddiaeth, os byddant yn cyflawni swyddi arweinyddiaeth ffurfiol neu beidio.

Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews
@nmcuk

The nursing and midwifery regulator for England, Wales, Scotland and Northern Ireland
Registered charity in England and Wales (1091434) and in Scotland (SC038362)